------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 18 Medi 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

# 227(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 4 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerwyd ers cyhoeddi'r bwriad i gau gwaith dur Orb yng Nghasnewydd?

**Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gefnogi penderfyniad Ineos Automotive i leoli eu hunain ym Mhen-y-bont ar Ogwr?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 6 Cynnig o dan Rheol Sefydlog 26.17(iii) mewn perthynas â'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

(5 munud)

**NDM7134** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.17(iii), yn cytuno y dylai trafodion Cyfnod 2 y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) gael eu hystyried gan Bwyllgor o'r Cynulliad Cyfan.

Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

## 7 Cynnig o dan Rheol Sefydlog 16.5 i sefydlu pwyllgor

(5 munud)

**NDM7136** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.5:

1. Yn sefydlu Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad.

2. Yn cytuno mai cylch gwaith y Pwyllgor yw archwilio argymhellion y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad.

3. Yn cytuno y caiff y Pwyllgor ei ddiddymu yn dilyn dadl yn y Cyfarfod Llawn ar ei adroddiad terfynol.

Senedd sy'n Gweithio i Gymru - Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

## 8 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Gwasanaethau Endosgopi yng Nghymru

(30 munud)

**NDM7132** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar wasanaethau endosgopi yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Ebrill 2019.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Gorffennaf 2019.

## 9 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Ansawdd Aer

(60 munud)

**NDM7133 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi mai yng Nghymru y mae peth o'r ansawdd aer gwaethaf yn y DU a bod rhai ardaloedd wedi torri rheoliadau'r UE ers sawl blwyddyn, gan arwain at gymryd Llywodraeth Cymru i'r llys am ddiffyg gweithredu.

2. Yn gresynu bod tua 2,000 o bobl yn marw'n gynnar bob blwyddyn (6 y cant o'r holl farwolaethau yng Nghymru) o ganlyniad i ansawdd aer gwael.

3. Yn nodi ymhellach bod llygredd aer yn dwysáu cyflyrau presennol ar yr ysgyfaint ac yn achosi asthma a chanser yr ysgyfaint, ac nad oes dealltwriaeth lawn eto o effeithiau hirdymor ansawdd aer gwael.

4. Yn galw ar y Cynulliad hwn i basio bil aer glân, a'i ddeddfu, yn ystod tymor y Cynulliad hwn, cyn etholiadau nesaf y Cynulliad.

5. Yn credu y dylai'r Ddeddf:

a) ymgorffori yn y gyfraith ganllawiau ansawdd aer Sefydliad Iechyd y Byd;

b) mandadu Llywodraeth Cymru i gynhyrchu strategaeth ansawdd aer statudol bob 5 mlynedd;

c) rhoi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i fonitro ac asesu llygredd aer yn briodol, a chymryd camau yn ei erbyn;

d) cyflwyno 'hawl i anadlu' lle y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol hysbysu grwpiau agored i niwed pan fydd rhai lefelau yn torri'r canllawiau a argymhellir.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi bod lefelau annerbyniol o lygredd aer yn parhau mewn rhai ardaloedd o Gymru, y DU ac Ewrop.

Yn gresynu at y ffaith bod rhai amcangyfrifon yn awgrymu bod dod i gysylltiad ag ansawdd aer gwael am dymor hir yn cyfrannu at farwolaeth cynifer â 36,000 o bobl yn y DU, a chynifer â 1,400 o bobl yng Nghymru.

Yn nodi hefyd y gall dod i gysylltiad â llygredd aer yn y tymor byr wneud clefydau anadlol yn waeth, fod dod i gysylltiad â llygredd aer yn yr hirdymor yn cynyddu perygl afiachusrwydd a marwolaeth o ganser yr ysgyfaint a chyflyrau eraill, ac y gallwn ddisgwyl i effeithiau iechyd eraill ansawdd aer gwael ddod i'r amlwg wrth i'r ddealltwriaeth wyddonol wella.

Yn croesawu camau cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys cyflwyno terfynau cyflymder parhaol o 50mya; cyflwyno ymgyrch y Diwrnod Aer Glân a datblygu Cynllun Aer Glân i Gymru.

Yn galw ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i ddefnyddio pob cam deddfwriaethol ac anneddfwriaethol posibl er mwyn gwella ansawdd aer.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Cynnwys is-bwyntiau newydd ym mhwynt 5:

mynnu bod cerbydau sy'n defnyddio diesel yn unig a phetrol yn unig yn cael eu dileu yn raddol erbyn 2030;

creu parthau aer glân mewn trefi a dinasoedd;

rhoi'r hawl i gymunedau osod offer monitro llygredd y tu allan i ysgolion ac ysbytai;

galluogi awdurdodau lleol i gyflwyno taliadau llygredd a thagfeydd;

llunio gynlluniau cenedlaethol a rhanbarthol i leihau llygredd aer yng Nghymru;

diwygio'r gyfraith cynllunio i'w gwneud yn ofynnol y rhoddir mwy o bwys ar effaith llygredd aer yn y system gynllunio.

## 10 Dadl Plaid Cymru - Cyfiawnder Hinsawdd

(30 munud)

**NDM7137** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r alwad gan Greta Thunberg ac ymgyrchwyr ieuenctid o Fridays for Future, i oedolion ymuno â myfyrwyr a phobl ifanc sydd ar streic ar 20 Medi 2019 i fynnu cyfiawnder hinsawdd.

2. Yn cymeradwyo'r rôl y mae myfyrwyr a phobl ifanc wedi'i chwarae yng Nghymru ac ar draws y byd o ran dod ag argyfwng yr hinsawdd i sylw llunwyr polisi a'r cyhoedd.

3. Yn cefnogi'r streiciau a'r gwrthdystiadau a drefnwyd gan bobl ifanc ac oedolion ar 20 Medi 2019.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 -** [Darren Millar (Gorllewin Clwyd)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Yn cymeradwyo'r rôl y mae pobl ifanc wedi'i chwarae o ran llywio'r agenda newid yn yr hinsawdd, fodd bynnag, yn credu nad streic a phobl ifanc yn colli ysgol yw'r ateb.

Yn cydnabod y pryder cyhoeddus eang ynghylch cynhesu byd-eang a bod cyfyngu ar y newid yn yr hinsawdd yn gofyn am ymdrech a chydweithrediad rhyngwladol, ac yn nodi'r camau canlynol a gymerwyd i fynd i'r afael â phryderon o'r fath:

a) y rôl flaengar y mae Llywodraeth y DU wedi'i chwarae o ran mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a symud i dwf glân;

b) bod y DU wedi lleihau allyriadau dros 40 y cant ers 1990 tra'n tyfu'r economi gan fwy na dwy ran o dair, sef y perfformiad gorau fesul person nag unrhyw genedl arall yn y G7;

c) bod Llywodraeth y DU wedi gosod targed sero net â rhwymedigaeth gyfreithiol i roi terfyn ar gyfraniad y DU i gynhesu byd-eang yn gyfan gwbl erbyn 2050.

Yn nodi datganiad argyfwng hinsawdd Llywodraeth Cymru ond yn gresynu at fethiant y llywodraeth i gyflwyno cyfres gynhwysfawr o fesurau sy'n addas ar gyfer argyfwng o'r fath.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2 – Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn cefnogi galwad mudiad Fridays for Future ar gyfer holl wleidyddion ac arweinwyr busnes i wrando ar bobl ifanc oherwydd bod angen eu penderfynoldeb, eu syniadau a'u hymdrechion ar frys i sicrhau Cymru carbon isel.

**Gwelliant 3 – Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu'r ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i roi'r bleidlais i bobl ifanc 16 ac 17 oed erbyn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2021, gan roi llais cryfach i'r bobl ifanc hynny ynghylch sut y mae Cymru'n wynebu'r her newid hinsawdd.

## 11 Dadl Plaid Cymru – Tâl ac amodau gweithwyr y GIG

(30 munud)

**NDM7138 Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu at gynigion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ymestyn sifftiau nyrsio heb dâl ar gyfer dros 4,000 o nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd.

2. Yn ofni colli ewyllys da ymysg staff sydd eisoes yn gweithio drwy eu cyfnodau egwyl neu sydd ar alwad ar eu wardiau neu eu hunedau.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiogelu tâl ac amodau gweithwyr rheng flaen o fewn y GIG drwy sicrhau bod y cynnig atchweliadol hwn yn cael ei ddiddymu.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn gwerthfawrogi gweithlu'r GIG a'n trefniadau gwaith partneriaeth gymdeithasol.

Yn disgwyl i holl gyrff y GIG weithio, ymgysylltu ac ymgynghori gyda'u staff, eu hundebau llafur a chyrff cynrychiadol eraill ar newidiadau gweithredol sy'n effeithio ar staff.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2, 3 a 4 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2 –** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu ymhellach bod nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd o ganlyniad i straen a phroblemau'n ymwneud ag iechyd meddwl o fewn y bwrdd iechyd wedi cynyddu 20 y cant ers 2014.

**Gwelliant 3 –** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn mynegi pryder na fydd y cynnig hwn o gymorth i forâl y staff ac y bydd yn gosod disgwyliadau ychwanegol ar nyrsys a gweithwyr gofal iechyd i aberthu eu cyfnodau egwyl cytundebol.

**Gwelliant 4 –** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ym mhwynt 3, dileu 'drwy sicrhau' a rhoi yn ei le:

'ac i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ymyrryd er mwyn sicrhau'

## 12 Cyfnod pleidleisio

## 13 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7135** Rhianon Passmore (Islwyn)

Hapus i Redeg

Creu Cymru egnïol lle mae dinasyddion yn rhedeg, yn cerdded neu'n loncian bob dydd i wella eu llesiant corfforol, emosiynol a meddyliol.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 24 Medi 2019

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 11/09/2019 i'w hateb ar 18/09/2019

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

**Lynne Neagle** *Torfaen*

1 OAQ54345

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch dyraniadau cyllid i'r portffolio addysg?

**David Rees** *Aberafan*

2 OAQ54305

**(e)**

Pa ystyriaethau y mae'r Gweinidog wedi'u rhoi i sicrhau nad yw cyllideb Llywodraeth Cymru, sydd ar y gweill, yn lleihau gwasanaethau i rai dros 60 oed yng Nghymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

3 OAQ54311

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog esbonio sut y gall dyfarnu rhyddhad ardrethi busnes yn ôl disgresiwn gefnogi busnesau bach a chanolig?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

4 OAQ54324

**(e)**

Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol o ran darparu dyraniad cyllideb ychwanegol i ariannu ailgylchu yng Nghymru?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

5 OAQ54333

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar gynlluniau trethi ail gartrefi Llywodraeth Cymru?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

6 OAQ54320

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith cyhoeddiad ariannol Llywodraeth y DU ar gyllideb Llywodraeth Cymru?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

7 OAQ54330

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru yn sgil adolygiad o wariant Llywodraeth y DU?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

8 OAQ54343

**(e)**

Beth yw dadansoddiad Llywodraeth Cymru o sefyllfa gyllidol bresennol Cymru fel y caiff ei nodi yn Gwariant a Refeniw Llywodraeth Cymru 2019, a gyhoeddwyd gan Brifysgol Caerdydd?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

9 OAQ54340

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau gwario Llywodraeth Cymru ym Merthyr Tudful a Rhymni?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

10 OAQ54301

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau buddsoddi mewn seilwaith ar gyfer Preseli Sir Benfro?

**David Melding** *Canol De Cymru*

11 OAQ54318

**(e)**

Pa gamau sydd wedi'u cymryd i sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu darparu ar gyfer tîm gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

12 OAQ54296

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith adolygiad o wariant diweddar Llywodraeth y DU ar gyllideb Cymru?

## Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

1 OAQ54321

**(w)**

Pa bwysigrwydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar bobl ifanc 16-18 oed wrth feddwl am ei tharged o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**2** OAQ54335

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo hamdden a chwaraeon yn y gymuned?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

**3** OAQ54342

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a yw ychwanegu'r gallu i siarad Cymraeg fel sgìl dymunol ar fanylebau swyddi ar gyfer swyddi gwag yn Llywodraeth Cymru wedi cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y sefydliad?

**David Rees** *Aberafan*

**4** OAQ54304

**(w)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

**5** OAQ54332

**(e)**

Pa amcanion allweddol y mae'r Gweinidog wedi'u gosod ar gyfer gweithgarwch hyrwyddo Llywodraeth Cymru yng Nghwpan Rygbi'r Byd yn Siapan?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

**6** OAQ54328

**(w)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynglŷn ag argaeledd profion a deunydd adolygu ar gyfer y prawf gyrru theori yn Gymraeg?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

**7** OAQ54338

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae cymunedau yn Islwyn yn elwa ar bolisïau gweithgarwch corfforol a gweithgareddau hamdden egnïol Llywodraeth Cymru?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

8 OAQ54337

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y consesiwn nofio am ddim diwygiedig?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

9 OAQ54297

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddenu digwyddiadau chwaraeon mawr i Gymru?

**David Melding** *Canol De Cymru*

10 OAQ54319

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

11 OAQ54336

**(w)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu'r iaith Gymraeg ar draws y byd?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

12 OAQ54344

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth ryngwladol ddrafft Llywodraeth Cymru?

## Comisiwn y Cynulliad

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

1 OAQ54306

**(e)**

A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am y penderfyniad i ddewis Carole Cadwalladr fel siaradwraig Gwyl y Gelli'r Cynulliad yng ngŵyl GWLAD - Gŵyl Cymru'r Dyfodol?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

2 OAQ54309

**(e)**

A wnaiff y Comisiwn gadarnhau pam nad yw Ei Mawrhydi y Frenhines, yn wahanol i Senedd yr Alban, wedi cael gwahoddiad i'r Cynulliad i nodi dathliadau 20 mlynedd o ddatganoli?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

3 OAQ54315

**(e)**

Pa ymdrech a wnaed i sicrhau bod amrywiaeth eang o siaradwyr yn rhan o ŵyl GWLAD - Gŵyl Cymru'r Dyfodol?